



Ysgrifennu blogiau

Sut i ysgrifennu

Cofiwch fod ysgrifennu i flog yn wahanol i ysgrifennu academiaidd traddodiadol.

- **Arddull cyfeillgar, sgysiol:** Defnyddiwch y person cyntaf a cheisio cynnwys cyfeiriad at eich cyd-destun eich hun a'ch profiad addysgu – meddyliwch am eich darllenwyr a'r hyn y gallan nhw ei ddysgu oddi wrthydd chi. Eglurwch acronymau ac esbonio jargon sy'n benodol i'r pwnc – dychmygwch fod y darlennydd yn dod am y tro cyntaf i'r pwnc sydd dan sylw gennych chi. Byddwch eich hun!
- **Mynnwch gael barn:** Gwnewch safiad a dweud eich dweud.
- **Byddwch yn gryno:** Rhwng 600-800 o eiriau, os oes modd.
- **Defnyddiwch frawddegau byr:** Defnyddiwch is-benawdau i helpu i strwythuro'r cynnwys, pan fo angen.
- **Canolbwyntiwch ar un pwnc:** Dylai postiad gyfleu un brif neges. Ceisiwch ddisgrifio yn hytrach na dweud, e.e. yn hytrach na dweud eich bod chi'n credu bod cynhadledd yn wych, ceisiwch esbonio pam y gwnaethoch chi fwynhau a beth wnaethoch chi ei ddysgu.
- **Ffrindiau beirniadol:** Trefnwch fod rhywun arall yn bwrw golwg feirniadol dros eich postiad cyn cyhoeddi.
- **Barn gadarn:** Gwybod beth i'w ddweud a phryd i orffen.

Beth i'w ysgrifennu

Mae bob amser yn well ysgrifennu am rywbeth rydych chi'n ei wybod ac yn frwd amdano.

- **Myfyrdodau:** Ar eich wythnos yn athro/ hyfforddwr/ darlithydd/ ymchwilydd. Ysgrifennwch am beth rydych chi wedi ei wneud gyda'ch myfyrwyr, unrhyw syniadau newydd rydych chi wedi rhoi cynnig arnyn nhw a sut aethoch chi ati i'w datrys nhw, unrhyw ganfyddiadau a gawsoch chi ac adnoddau da rydych chi wedi eu defnyddio.

- **Argymhellion ar gyfer erthyglau, llyfrau, gwefannau:** Rydych chi wedi eu defnyddio neu a oedd o ddefnydd i chi. Gallech chi gynnwys gwybodaeth am y modd rydych chi'n defnyddio'r rhain a sut oedden nhw o gymorth wrth i chi addysgu, gan gynnwys unrhyw broblemau posibl a ddigwyddodd.
- **Myfyrdodau ar brosiectau ac ymchwil:** Gallech chi ddisgrifio'r prosiect a'i amcanion a sut mae wedi helpu eich myfyrwyr chi, beth rydych chi wedi ei ddysgu o'r prosiect a beth yw'r camau nesaf.
- **Gair i gall neu weithgareddau:** Rydych chi wedi eu defnyddio yn eich darlithoedd chi. Gallech chi ddisgrifio'r gweithgareddau rydych chi wedi rhoi cynnig arnyn nhw yn eich ystafell ddosbarth, beth weithiodd yn dda/ na weithiodd a beth ddysgoch chi o ddefnyddio'r gweithgareddau hyn.
- **Adroddiadau o gynadleddau:** Gallech chi nodi beth ddysgoch chi o'r gynhadledd/ seminar a pha ganfyddiadau newydd a gafwyd, pa weithgareddau neu ddamcaniaethau a glywsoch chi a'r modd y bydd yr hyfforddiant yn effeithio ar y modd y byddwch chi'n dysgu.
- **Persbectifau ar ddigwyddiadau amserol lle mae gennych chi arbenigedd:** Yn cynnwys y newyddion diweddaraf/ ymchwil/ polisi/ gwleidyddiaeth.

Syniadau eraill

- **Blogiwch mewn tîm:** Ystyriwch gael mwy nag un blogiwr/ cyfrannwr i rannu baich y postio.
- **Byddwch yn barchus i bob parti:** Ystyriwch 'rwyd-foesau' da a phriodoldeb proffesiynol. Byddwch yn gwrtais a pharchus o ddiwylliannau eraill a barn eraill. Mae'n bwysig codi materion, ond peidiwch â cheisio gwrthio eich barn chi ar eraill.
- **Peidiwch â chyhoeddi unrhyw beth a allai fod yn fasnachol sensitif:** e.e. Cofnodion nad yw pobl wedi cytuno arnyn nhw/ partneriaethau posibl/ cynigion ar waith/ sefyllfaoedd ariannu ac ati. Os yw eitem/ maes / cyhoeddiad eisoes yn gyhoeddus, mae'n debyg ei bod yn iawn eu trafod, ond ceisiwch gyngor os nad ydych chi'n siŵr.
- **Amddiffynnwch eich eiddo deallusol ac eiddo deallusol eich cydweithwyr:** Sicrhewch nad ydych chi'n datgelu gwybodaeth berchnogol am eich ymchwil chi neu drydydd parti heb eu caniatâd nhw. Peidiwch byth â rhoi enwau, lleoedd, cyfeiriadau penodol neu fanylion cyswllt heb ganiatâd.

- **Y cyfryngau cymdeithasol:** Meddyliwch am ba ddulliau ar-lein y gallech chi eu defnyddio i hyrwyddo eich postiad blog – a sut i greu cynulleidfa.

“Dydych chi ddim yn ysgrifennu am eich bod chi am ddweud rhywbeth. Rydych chi’n ysgrifennu am fod gennych chi rywbeth i’w ddweud.” F. Scott Fitzgerald